# Dewch yn Ofalwr Maeth



Gwasanaethau Cymdeithasol

## Beth yw Maethu?

Mae Maethu yn golygu gwneud gwahaniaeth i fywyd plentyn er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.

Gofal Maeth yw edrych ar ôl plentyn neu blant rhywun arall yn eich cartref eich hun am gyfnodau byr neu hir, efallai hyd nes i'r plentyn

Gofal maeth yw gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd a gweithwyr cymdeithasol. Golyga fynychu rhai cyfarfodydd ac adolygiadau ynghylch y plentyn, a disgwylir i ofalwyr maeth annog plant i gynnal cysylltiad â'u teuluoedd geni.

Gofal Maeth yw helpu plentyn i ddeall paham na all ef/hi fyw gartref, a helpu plentyn i ddeall y gorffennol ac adeiladu hunanhyder ar gyfer y dyfodol.

Mae Gofal Maeth ynghylch derbyn y plentyn am yr hyn yw, heb ystyried hil, crefydd, iaith, rhyw, oedran, diwylliant, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol; ac ynghylch agwedd anfeirniadol tuag at blant a'u teuluoedd.



Gall Gofal Maeth yn aml olygu ymdrin ag ymddygiad anodd neu heriol, a gall olygu wynebu ansicrwydd a newid, i'r plentyn ynghyd â'r gofalwyr.

Golyga Gofal Maeth roi amser, gofod, cyd-ddealltwriaeth ac arweiniad,

blentyn wybod eich bod yno ar ei gyfer/chyfer pan fydd eich angen arno/i.

Mae Gofal Maeth ynghylch helpu plant mewn angen i fyw mewn teuluoedd cyffredin a gwneud pethau cyffredin.

Mae arnom angen gofalwyr maeth ar gyfer plant o bob oed, ond yn enwedig ar gyfer yr arddegau, ac ar gyfer brodyr a chwiorydd sydd angen eu lleoli gyda'i gilydd.

## A gaiff Gofalwyr Maeth eu talu?

Telir lwfans wythnosol i ofalwyr am y plentyn, sy'n cwmpasu eitemau megis dillad, bwyd, gweithgareddau hamdden, gwisg a chyfarpar ysgol, cludiant ac arian poced. Dibynna'r swm a delir ar oed y

ar fudd-daliadau.

## A oes angen hyfforddiant ar Ofalwyr Maeth?

Rydym yn rhedeg cwrs hyfforddiant rhagarweiniol, y mae'n rhaid i'r holl ddarpar ofalwyr maeth ei fynychu. Mae'r hyfforddiant yn helpu pobl i ddeall y dasg o faethu ac mae'n rhoi llawer o wybodaeth a chyngor. Cynigir hyfforddiant pellach wedi i ofalwyr gael eu cymeradwyo, ac mae'n rhaid i'r holl ofalwyr fynychu nifer penodedig o sesiynau hyfforddiant sylfaenol. Rydym hefyd yn

NVQ Lefel 3.

## Pwy sy'n gallu maethu?

# Sut i gysylltu â ni

Tîm Lleoli
Gwasanaethau Cymdeithasol
Ganolfan Adnoddau Teulu